RHIFYN
ISSUE
56
06.07.23

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor yr Haf eleni fydd 21.07.23 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Hydref ar 05.09.23. Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.

The last day of the Summer Term this year is on 21.07.23 at 3:30 pm. The children return for the Autumn Term on 05.09.23. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau i FP am ennill cystadleuaeth i ddylunio poster yn ddiweddar i hybu'r defnydd o ynni adnewyddadwy. Gwobr FP oedd ymweliad iddi hi a'i ffrindiau dosbarth â'r Bathdy Brenhinol i gwrdd â Iolo Williams. Diwrnod bythgofiadwy gyda phawb yn mwynhau mas draw!

Many congratulations to FP who won a poster designing competition recently to promote the use of renewable energy. FP's prize was a trip for her and her classmates to the Royal Mint to meet Iolo Williams. A memorable day which everyone thoroughly enjoyed!



About - Infinite Renewables

Dolen *Link*



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

21.07.23 - Plant yn gorffen - gwyliau'r Haf
Children finish - Summer Break
24.07.23 - Diwrnod HMS - Staff yn unig
INSET Day - Staff only
04.09.23 - Diwrnod HMS - Staff yn unig
INSET Day - Staff only
05.09.23 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Hydref
Children return - Autumn Term
27.10.23 - Plant yn gorffen - Hanner Tymor
Children finish - Half Term

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
THE URDD NATIONAL EISTEDDFOD

Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Perfformiadau penigamp unwaith eto gyda'r Parti Deulais yn cipio'r ail wobr y neu cystadleuaeth nhw! Diolch i'r plant am eu holl waith caled, i'r staff am baratoi'r plant ar gyfer y cystadlu ac i bawb ddaeth i gefnogi dros y ddau ddiwrnod yn Llanymddyfri.

Many congratulations to all those who took part in the Urdd National Eisteddfod during the Whitsun break. Fantastic performances once again with the Two-Voice Party coming second in their competition! A big thank you to all the children for their hard work, to the staff for preparing the children for the competitions and to all those who came along to support over the two days in Llandovery.



YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL
THE NATIONAL EISTEDDFOD

Yn ystod y flwyddyn academaidd i ddod, bydd yr ysgol yn galw arnoch i gefnogi ein hymdrechion i godi arian tuag at Yr Eisteddfod Gendlaethol a fydd yn cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf fis Awst, 2024. Rhannwn ragor o wybodaeth ynghylch digwyddiadau i godi arian â chi maes o law. Yn y cyfamser, os hoffech chi fynychu'r cyfarfod nesaf i drafod cynlluniau pwyllgor Cronfa Apêl ardal Pontyclun a Llantrisant, bydd cyfarfod yng Nghlwb Rygbi, Pontyclun, Nos Sul, Gorffennaf 23ain am 7:00 yh.

During the next academic year, the school will call on your generosity in supporting our funds raising efforts towards the National Eisteddfod which will be held in Rhondda Cynon Taf in August, 2024. We'll share further details of fund-raising events with you shortly. In the meantime, should you wish to attend the next meeting of the Pontyclun and Llantrisant Appeal Committee, a meeting will be held in Pontyclun Rugby Club on Sunday, July 23rd at 7:00 pm.



Dyma AA ac EGD a fu'n ddigon ffodus i fod yn rhan o Seremoni Gyhoeddi yr Eisteddfod Genedlaethol a fydd yn cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf, fis Awst 2024.

Here's AA and EGD who were fortunate enough to take part in the recent Proclamation Ceremony for the National Eisteddfod which is to be held in Rhondda Cynon Taf in August, 2024.

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf

Ebost / *Email*: admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru

LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Mae JD wedi bod yn brysur unwaith eto yn ddiweddar! Da iawn ti JD am ennill Gwobr Hyfforddwr y Pontypridd Panthers - y Chwaraewr Mwyaf Gwerthfawr!

JD has been very busy again recently! Well doen JD for winning the Pontypridd Panthers' Coach Award - The Most Valuable Player!



POB LWC!
GOOD LUCK!

Hoffem ddymuno pob lwc i Miss Bevan sydd wedi'n gadael ni i ddechrau swydd newydd yn ddiweddar.

We'd like to wish good luck to Miss Bevan, who recently left us to take up a new post.



CROESO ATOM
WELCOME

Hoffem groesawu Mr B Richards atom. Bydd Mr Richards yn gweithio ar draws Cam Cynnydd 2 a 3 fel Cynorthwyydd Addysgu.

We'd like to welcome Mr B Richards to school. Mr Richards is working with us as a Teaching Assistant across all three Progression Steps 2 and 3.



DOSBARTHIADAU 2023-2024
2023-2024 CLASSES

Yfory, ynghyd ag Adroddiadau Cynnydd Diwedd y Flwyddyn y plant, cewch rhagor o wybodaeth ynghylch dosbarthiadau blwyddyn nesaf - felly cadwch lygaid barcud ar eich cyfrifon ebost, os gwelwch yn dda. Mae'r staff yn edrych ymlaen at rannu llwyddiannau'r plant gyda chi!

Mae niferoedd a threfniadau'r dosbarthiadau yn dibynnu ar y nifer o blant Blwyddyn 6 fydd yn ein gadael ni a'r nifer o blant oedran Meithrin fydd yn ymuno â ni. Trefnir y disgyblion gan ddilyn y meini prawf oedran geni. Ni ddefnyddir rhyw plentyn fel un o'r meini prawf. Bydd dosbarthiadau oedran cymysg ar draws yr ysgol ar adegau a nid yw'n bosibl sicrhau y bydd grwpiau / dosbarthiadau o blant yn symud gyda'i gilydd o un dosbarth i'r llall ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd. Bwriedir trefnu sesiwn ar 17.07.23 i'r plant ymweld â'u dosbarthiadau newydd i gwrdd â'u hathrawon a'u ffrindidau newydd!

Tomorrow, along with the End of Year Progress Reports, you will be informed of next year's class structures - so please keep a close eye on your email accounts. The staff are looking forward to sharing the children's successes and achievements with you!

Pupil numbers and class organisation depends on the number of Year 6 pupils leaving the school and the number of Nursery aged children joining us. The classes are arranged using the children's date of birth as the criteria. Gender is not used as one of the criteria. There will always be mixed age group classes throughout the school and it is not possible to guarantee that the groups of children / classes move on block, together to the next class for the ensuing academic year. We intend to organise a session on 17.07.23 for the children to visit their new classes to meet their new teachers and their new friends!

CEFNOGAETH Y GRhA
THE PTA'S SUPPORT

Mawr iawn yw diolch holl blant a staff yr ysgol i bwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth barhaus. Y Tymor hwn, ariannwyd ymweliad gan 'SparklabCymru' â phob dosbarth ar draws y tri Cham Cynnydd - gweithdai gwyddoniaeth a oedd wedi sbarduno'r plant! Hefyd, ariannwyd saith iPad newydd i'r dosbarthiadau er mwyn i'r plant gael mynediad at lu o apiau rhifedd a llythrennedd yn y dosbarthiadau. Yn ogystal, diolchiadau llu i bob aelod o bwyllgor y GRhA, y gwirfoddolwyr a'r staff am eu holl waith caled i sicrhau llwyddiant y Ffair Haf yn ddiweddar. Rwy'n siwr y byddwn yn darllen am lwyddiant y Ffair, ynghyd â newyddion am yr holl arian a gasglwyd, yn y dyfodol agos mewn cylchlythyr gan y GRhA.

All of the children and staff are very grateful to the Parents and Teachers' Association for their ongoing support. This term, the committee totally funded visits to school by 'SparklabCymru' for all classes across Progression Steps 1 to 3 - science workshops which inspired the children! Also, the committee funded seven iPads for the classes to use accessing a range of literacy and numeracy apps.

Many thanks, also, to all those members of the PTA, the volunteers and staff who worked earnestly to ensure the success of the recent Summer Fayre. I'm sure we'll read more about the success of the Fayre, along with news of the funds collected, in any upcoming PTA newsletters.

